

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 26AIN O EBRILL 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Ceri Davies, Geraint Jones, Arwel Davies, Bari Evans a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Falmai Evans, Hywel Davies, Stan Williams a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim yn Codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 29ain o Fawrth 2021 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A: Mae'r Swyddogion Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn ar waith answyddogol sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-

1: Llyn Pysgota Cae'r Mynydd yn Saron.

2. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1: Arwyddion Cae'r Felin/Llys Gwilym yn camarwain pobl parseli yn mynd i mewn i'r stadau - arwyddion newydd wedi eu harchebu.

2. Tyllau yn y ffordd wrth Ben-y-groes, Prion - ar restr i'w chwblhau.

3. Tyllau yn y ffordd wrth Dyddyn Isa' i Brÿn Mulan, Prion - ar restr i'w chwblhau.

4. Tyllau yn y ffordd wrth Wae'n Goch, Prion - ar restr i'w chwblhau.

5. Tyllau yn yr ystâd Pont-y-Bedol yn Llanrhaeadr - ar restr i'w chwblhau.

6. Estyniad i'r llinell ddwbl felen wrth Y Lodge yn Llanrhaeadr - - ar restr i'w chwblhau.

C. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth y Pennaeth, Ysgol Bro Cinmeich am gefnogaeth arian y Cyngor.

6. SEDD WAG Y CYNGOR.

A. Cadarnhawyd Swyddog Etholiad Cyngor Sir Ddinbych nid oedd yna unrhyw gais ysgrifenedig gan 10 o Etholwyr Llywodraethwyr Lleol yn gofyn am isetholiad.

B. Mi fydd y Cyngor Cymuned yn cyfethol y sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor ac mi fydd y Clerc yn cyhoeddi'r hysbysiad swyddogol.

7. CLWSTWR YSGOLION BRO CINMEIRCH A PHANT PASTYNOG.

Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Elfed Williams ei fod wedi cyfarfod Geraint Davies o'r Adran Addysg ynglŷn â'r drafnidiaeth "Clwstwr Ysgolion Bro Cinmeich a Phant Pastynog" i'r dewis Ysgolion Uwchradd. Gan nad oedd Elfed Williams a Geraint Davies yn gallu cytuno gyda'r polisi, penderfynwyd Geraint Davies i benodi Swyddog Annibynnol i edrych ar y polisi ac adroddi yn ôl cyn gynted â phosib.

8. ADRODDIAD CYFARFOD "BROADBAND BROADWAY" A GYNHALIWDYD AR NOS FAWRTH 20FED O EBRILL 2021.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd o'r cyfarfod ar y cyd rhwng Cyngorau Cymunedol Llanrhaeadr a Cyffylliog gyda chwmni "Broadband Broadway" a oedd yn awyddus rhoi band eang llawn ffibr i'r ddwy gymuned os oes yna 30% o'r tai yn y gymuned yn dangos diddordeb ynglŷn ar wasanaeth. Penderfynwyd yr aelodau i fwrw ymlaen gyda'r ymchwiliadau "Broadband Broadway" ar ôl glywed yn ôl gan Gyngor Cymuned Cyffylliog sydd yn cyfarfod ar 10fed o Fai 2021.

9. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

10. MATERION CYLLID.

A; Datganiad Banc £8,094.04.

B. Rhoddwyd awdurdod i dalu Cwmni BHIB am yswiriant blynyddol y Cyngor £498.88.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO:-

Cais 23/2021/0270 - Gosod 4 goleuadau to, ffurfio agoriad ffenestri llawr cyntaf ychwanegol, addasiadau mewnol a gwaith cysylltiedig (Cais adeilad Rhestredig) yn Groes Gwta, Prion - dim gwrthwynebiad.

12. GOHEBIAETH.

A. Mi fydd Cyngor Sir Ddinbych yn adnewyddu'r fainc sedd gyhoeddus ym Modnant, Llanrhaeadr.

B. Mi fydd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn rhoi ac yn ariannu Diffibriliwr ar wal Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Nid oedd y Cyngorydd Sir yn bresennol yn y cyfarfod.

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A: Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar finiau graenu melyn mae'r Cyngor Sir Ddinbych yn gosod yn y gymuned ar hyn o bryd sydyn achosi broblemau yn culhau'r ffyrdd ar gaeadau ddim yn cau yn iawn a chytunwyd i'r Clerc tynnu sylw'r Cyngor Sir.

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar holl waith priffyrdd y gymuned sydd ddim wedi cael sylw Cyngor Sir Ddinbych ar ôl tynnu'r sylw'r problemau oddi wrth y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd gwahodd y Cyngorydd Sir Ddinbych, Brian Jones, Aelod Adweinyddol dros Wastraff, Cludiant a'r Amgylched ynghyd a Mr Tim Towers, Rheolwr Risg ac Asedau Cyngor Sir Ddinbych, i'r cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod gwaith ar y ffyrdd sydd ddim wedi cael sylw.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – CYFARFOD BLYNYDDOL AR NOS LUN 24AIN O FAI 2021.